

Targedau / Targets	Sut rydych wedi gweithio ar hwn / How you have worked on this	Ceir enghraifft ar / An example can be found on
Parhau i loywi dy sgiliau cyfathrebu (e.e. defnyddio mwy o ferfau cryno; adolygu rheolau treiglo)	Gwneud yn siŵr fy mod i'n defnyddio geiriau fel 'Dywedir' a 'gwelir'.	Trwy gydol yr aseiniad gwelwch mwy o'r geiriau hyn.
Ehangu eich ymgysylltiad â llenyddiaeth drwy ddarllen mwy o erthyglau academiaidd.	Darllenais mwy o astudiaethau achos, ac hefyd defnyddiais mwy o llyfrau academiaidd, nid gwefannau.	Llyfryddiaeth yr aseiniad.
Defnyddia'r llawlyfr i sicrhau cyfeirnod cywir yn y dyfodol Llawlyfrau Cyfeirnod University of Wales Trinity Saint David (uwtsd.ac.uk)	Defnyddiais y llawlyfr cyfeirnod er mwyn gwneud yn siŵr bod pob ffynhonnell wedi cyfeirnod i'n gywir.	Llyfryddiaeth yr aseiniad.

Gan gefnogi eich trafodaeth gyda theori, ymarfer a thystiolaeth o'r lenyddiaeth, adfyfyrwch yn feirniadol ar sut y byddech yn cefnogi dysgwr unigol sydd a'i g/chynnydd yn cael ei effeithio gan rwystrau penodol i'w dd/dysgu yn ystod un cyfnod pendant o drosglwyddo (llorweddol neu fertigol).

Rhan 1

Yn ystod yr aseiniad, trafodir anawsterau'r iaith o blant sydd wedi ymfudo i'r wlad, yn dianc o ryfel ac ymladd. Gelwir hyn yn Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY). I Aleksander, mae'r anhawster hyn yn rhoi'r rhwystr ar Aleksander i gyfathrebu, ac hefyd bydd Aleksander yn sgorio yn is mewn profion yn erbyn y plant sydd yn rhugl yn yr iaith (Demie, 2012, tud 60). Trafodir bachgen sydd wedi ymfudo o'r wlad Wcráin, i Gymru, ac yn setlo i mewn i ysgol gynradd Saesneg. O ganlyniad o'r rhyfel Wcráin, rydym wedi gweld miloedd o blant yn ffoi o'r wlad (UNICEF, 2022) gan y Llywodraeth Cymru yn galw eleni am fwy o deuluoedd i agor eu cartrefi i gynnal teulu sydd wedi ffoi o'i wlad gartrefol Wcráin (BBC News, 2022). Gwelwn filoedd o blant yn ymuno ein hysgolion, ble mae rhai wedi cymryd yr amser i ddysgu'r iaith Saesneg cyn ymuno, fel merch o Lviv sydd wedi bod yn dysgu'r iaith cyn ymuno (BBC News, 2022). Ond i blant fel Aleksander, bydd rhai dal methu siarad yr iaith genedlaethol pan fyddant yn ymuno gyda'r ysgol.

Bachgen ym mlwyddyn 5 yw Aleksander, fy nisgybl ffug creais i gynnal yr ymchwil yma am yr aseiniad ECAD6013, sy'n fathemategwr arbennig am ei oed, ond yn gweld yn anodd ymuno mewn i sgysiau gyda'i ffrindiau newydd yn ei ysgol oherwydd na gall Aleksander siarad gymaint o Saesneg eto, ac yn gweld yn anodd siarad yr iaith. Mae'r ysgolion Cymru yn darparu'r un addysg o safon uchel ag y mae gan bob plentyn yn y wlad hawl iddi (Llywodraeth Cymru, 2022). Wrth i'r ysgol cadw at air y llywodraeth, mae'r ysgol wedi dewis i ddechrau ymyrraeth iaith a Lleferydd gyda Aleksander trwy ddefnyddio model awtistaidd 'PECS' sef system gyfathrebu cyfnewid lluniau (PECS). Pwrpas y system yma yw ymarfer sgiliau cyfathrebu plant trwy ddefnydd o luniau a'r geiriau (Flippin, Reszka a Watson, 2010). Diffinnir Ryder (Ryder, 2013, tud.138-139) y therapi hwn fel gwasanaeth sydd yn helpu plant sy'n angen cymorth i addysgu iaith a chyfathrebu. Bydd athro'r dosbarth yn creu cynllun penodol i'r plentyn derbyn y cymorth sydd eisiau, a bydd cynorthwyydd dosbarth, fel arfer, yn cynnal y sesiynau hyn, yn unigol ac mewn grwpiau ffocws. Bydd yr ysgol yn ystyried y cyd-destun o'r galwad i'r ymyrraeth, cyn asesu'r plentyn a llunio cynllun i'r plentyn (Ryder, 2013, tud.138).

Ymunodd Aleksander yn yr ysgol ym mlwyddyn pump, dim ond wythnosau cyn i'r trosglwyddiad fertigol o newid o ddosbarth blwyddyn pump i flwyddyn chwech. Mae trawsnewid fertigol yn newid na fydd plant yn wynebu'n ddyddiol. (Vogler, Crivello a Woodhead, 2008, tud. 2). Gallai hyn fod unwaith y flwyddyn pan fydd y plentyn yn symud i fyny dosbarth, neu os yw'r plentyn yn symud ysgol neu hyd yn oed os yw'r plentyn yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod hir o addysg gartref. Cytuna Dr O'Kane (2015, tud. 2) fod trawsnewidiadau fertigol yw'r trawsnewidiad ble mae'r plentyn yn newid i amgylchedd newydd fel dosbarth newydd, blwyddyn ysgol newydd neu ysgol newydd.

Gwelwn gynnydd o ei iaith Saesneg, ers iddo ddechrau yn yr ysgol. Er mwyn i'r athrawon adnabod Aleksander, gofynnir ysgol iddo ysgrifennu proffil un tudalen yn ei iaith gartrefol. Er mwyn i'r athrawon, roedd angen i ni gyfieithu'r proffil o'r iaith Wcreineg. Gwelir y proffil un tudalen yn rhan dau o'r aseiniad, ynghyd a'r Cynllun Datblygiad Unigol Aleksander.

I ddechrau, roedd angen i'r athro dosbarth deall beth oedd Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY). Diffinnir (Norfolk County Council, 2020) fel y rhwystr sydd gan blentyn pan nad Saesneg yw ei iaith gyntaf, ond ei fod yn y system addysg Saesneg. (Norfolk County Council, 2020) hefyd yn cyffwrdd ar sut mae Saesneg fel iaith Ychwanegol yn dod yn rhwystr pan nad yw amgylchedd cartref y plentyn yn siarad Saesneg, ac felly nad oedd y plentyn hwnnw wedi dod i gysylltiad â Saesneg yn ystod ei gamau datblygiad cynnar. Mae'r Adran Addysg yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Department for Education, 2020) yn cytuno â diffiniad Norfolk o Saesneg fel iaith Ychwanegol, drwy nodi yn ystod cyfrifiad ysgol, yr edrychir ar iaith gyntaf y disgyblion, a bod y disgyblion a gofnodir ag iaith gartref wahanol i Saesneg, credir bod Saesneg yn iaith Ychwanegol. Yng ngwanwyn 2018, yr ystadegau ar gyfer hyn oedd pedwar ar bymtheg y cant, sef 1.6 miliwn o ddisgyblion yn Lloegr, fel y gwelir yn y tabl yn y cyfrifiad ysgolion a gynhaliwyd yn 2018 (Department for Education, 2018). Yn bwysicach fyth, mae'r un tabl yn dangos i ni fod un ar hugain y cant o fyfyrwyr mewn ysgolion cynradd a ariennir gan y wladwriaeth yn dod o gartref lle nad Saesneg yw'r iaith gyntaf, o gymharu â'r ganran sydd yn is i gymharu â'r ysgolion cynradd o un ar bymtheg y cant ar gyfer ysgolion uwchradd a ariennir gan y wladwriaeth yn Lloegr.

Defnyddir syniad (Bondy a Frost, 1994) o'r system PECS i greu ymyrraeth iaith i addysgu'r iaith Saesneg i Aleksander yn yr ysgol. Erbyn i PECS gael ei gyflwyno ym 1994, addasodd Bondy sut mae plant awtistig yn cyfathrebu â'u hathrawon. Mae'r system yn defnyddio lluniau o wrthrychau neu ofynion sydd gan y disgybl fel 'potel' neu 'toiled' ac yna byddai'r disgybl yn rhoi'r rhain at ei gilydd i wneud brawddeg (Charlop-Christy, et al., 2002). Wrth ddefnyddio'r system, a'r lluniau, bydd y cynorthwyydd dosbarth yn helpu'r disgybl gyda'i anghenion, neu ei ddymuniadau. Mae Yarnall a Siegel (Yarnall, 200) (Siegel, 200) yn

cadarnhau'r dull ymarfer PECS a sefydlwyd gan Bondy a Frost (1994). Mae'r ddau yn cyfeirio at Bondy a Frost yn eu hymchwil ar PECS wrth drafod PECS yn eu gwaith. Cytuno bod PECS yn system ddefnyddiol, ond heb ei defnyddio ar y pryd, i helpu gyda sgysiau ar gyfer y plant awtistig nad ydynt yn gallu siarad.

Yn ddiweddar, archwiliodd Avagyan (2019) y defnydd o PECS ar gyfer mewnfudwyr nad oeddent yn gallu siarad iaith Armenia. Mae Avagyan yn nodi'r llwyddiant y mae PECS wedi'i gael yn Ewrop, Unol Daleithiau America, Canada ac Awstralia, ac yn eu hymchwil mae'n mesur sut mae'r system yn gweithio i gefnogi mewnfudwyr na allant siarad Armeneg. Mae Avagyan (2019) yn mesur y system PECS ar ôl treial tri mis, gan edrych ar gynnydd naw disgybl. Mae'r canlyniadau'n dangos bod chwech o bob naw o'r plant mewnfudwyr wedi cynyddu eu lefel cyfathrebu cymdeithasol, o fewn y tri mis cyntaf. Mae hyn yn rhoi'r syniad pendant, fel yr athro dosbarth, y bydd PECS yn y syniad sylfaenol ar gyfer yr ymyrraeth i Aleksander i wella ei sgiliau cyfathrebu yn yr iaith Saesneg.

Ysgrifennir Rasheed (2017) astudiaeth achos ar y sefyllfa Saesneg fel iaith Ychwanegol yn Aberdeen, yr Alban yn 2017. Siaradir Rasheed am y ffordd nad oedd yr Albanwyr yn blaenoriaethu'r Saesneg yn eu hysgolion. Roedd hyn yn wir ddim ond i 2012, pan ddaeth hyn yn broblem. Gwelodd y llywodraeth fod angen iddynt gefnogi'r Saesneg ar gyfer swyddi a'u heconomi (Rasheed, 2017). Yn y dyddiau cynnar o Saesneg fel iaith Ychwanegol, bydd systemau addysg y Deyrnas Unedig yn gadael y plant mewnfudwyr i ymuno â'r ysgolion lleol yn syth pan fyddent yn cyrraedd y wlad (Derrick, 1977). Byddai'r llywodraethau lleol yn gwneud hyn i gael y plant mewnfudwyr i integreiddio yn amgylchedd eu hysgolion lleol (Levine, 1996) i ddod yn rhan o'r ysgol yn gyflymach (Derrick 1977). Yn bwysig, mae rhaid gwe rhoi ymwybyddiaeth nad oedd hynn yn llwyddiannus, gan fod gwneud hyn wedi achosi cyfaddawd enfawr yn safonau academaidd ysgolion, a chyrhaeddiad y siaradwyr Saesneg rhugl yn y dosbarth, o gymharu â'r disgyblion Saesneg fel iaith Ychwanegol (Leung a Franson, 2001).

Cytunir (Strand, 2014, tud.133) roedd yna fwlch mawr rhwng y plant oedd yn siaradwyr rhugl o'r iaith Saesneg, bwlch sydd yn cymharu yn fwy nag bwlch cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched. Wrth i'r ddeddf y llywodraeth ar fewnfudwyr (*Immigration Act 1971*) yn dweud bod mewnfudwyr yn cael i alw'n rhan barhaol o'r gymdeithas y Deyrnas Unedig. Ar-ôl agorwyd unedau a chanolfannau arbenigol i'r plant Saesneg fel iaith Ychwanegol, yn eu tynnu allan o ddosbarthiadau prif ffrwd. Defnyddir y ciliad o'r mewnfudwyr fel datrysiaid i'r cynyddiad o boblogaeth Saesneg fel iaith Ychwanegol yn y dosbarth prif ffrwd (Costley, 2014). Adroddir Yr Adroddiad Swann (Swann, 1985) ar yr arfer ciliad yn ysgolion Lloegr. Labelir adroddiad yn arfer gwahaniaethol (discriminatory) o addysg ac ystyried y ffordd hon o addysg yn

annerbyniol yn academiaidd. Galwodd hyn am system newydd ar gyfer dysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol, i'w dwyn yn ôl i'r brif ffrwd, a'i chymysgu â disgyblion Prydain (Bourne, 1989). Heddiw, yn yr Alban a'r Deyrnas Unedig gyfan, gwelwn fwy a mwy o driniaeth gyfartal rhwng y disgyblion sydd â rhwystr Saesneg fel Iaith Ychwanegol, a'r rhai sy'n rhugl yn ein dosbarthiadau Saesneg (Rasheed, 2017).

Wrth i'r rhyfel yn Wcráin parhau, mae'r plant sydd yn dechrau yn ein hysgolion yn ymuno cymunedau, a mae'n bwysig i'r plant i fod yn yr ysgol. Darparir (Comisiynydd Plant Cymru, 2022) cefnogaeth i'r athrawon ac yr oedolion sydd yn cefnogi'r plant Wcrainaid yn ein gwlad tra bydd y plentyn yn astudio i ffrwdd o'u cartrefi trwy greu a chyhoeddi adnoddau ar-lein i gefnogi'r datblygiad y plentyn. Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawliau (Comisiynydd Plant Cymru, 2022). Mae erthygl 22 yn holl bwysig gyda'r sefyllfa gwelwn oherwydd Rhyfel Wcráin. Dywedir erthygl: "Os wyt ti'n ffoadur (refugee), mae gennyt ti'r un hawliau ag unrhyw blentyn arall yn y wlad." Cytunir Llywodraeth Cymru (2022) gyda'r Comisiynydd Plant bod angen pob un plentyn yn yr ysgol.

Mae'r Erthygl 22 yn y ddogfen Hawliau Plant yn dweud wrthyn bod Cymru yn agor eu dosbarthiadau at bob un plentyn sydd yn byw yn y wlad, hyd yn oed pob un ffoadur sydd yn dianc i Gymru. Danfonir Ysgrifennydd Gwladol dros Lywodraeth y Deyrnas Unedig (Zahawi, 2022) llythyr integreiddio i bob ysgol yn diolch am yr ymateb o'r ffoaduriaid sydd wedi, a dal ati i groesi'r ffiniau i'r Deyrnas Unedig. Dywedir hyn:

"Pupils arriving from Ukraine will be offered a broad and balanced curriculum, which promotes spiritual, moral, cultural, mental and physical development of pupils..."

Ers hyn, darparir Ukrainian Ministry of Education and Science (dim dyddiad) y cwricwlwm Wcrainaid i'r athrawon Y Deyrnas Unedig deall beth mae'r plant ffoadur wedi dysgu. Gyda hyn, darparir defnyddiau yn yr iaith Wcreineg i helpu gyda'r cyfieithu o'r gwaith ac yr ochr cymdeithasol yn yr ysgolion.

Fel yr athro dosbarth i Aleksander, mae yna alw am ymyrraeth i helpu Aleksander i gryfhau ei sgiliau iaith, i roi'r gallu i gymdeithasu gyda'i ffrindiau, ac hefyd iddo allu ysgrifennu yn yr iaith, ac hefyd i ymuno mewn trafodaethau'r dosbarth. Ymchwilir Macur (2020) i'r gwahanol ymyrraethau sydd ar gael am blant Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY). Siaradir Macur am y ddau fath poblogaeth o ymyrraethau sydd ar gael am blant Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Diffiniad yr ymyrraeth gyntaf, sef ymyrraeth gwrthio i mewn, yn ble bydd yr athro yn cynllunio i'r ymyrraeth fod yn rhan o'r gwersi arferol y dosbarth. Gall hyn meddwl bydd yna athro arall yn y dosbarth, yn eistedd gyda'r plentyn SIY, ac yn darparu'r gwaith a'r gofynion y wers i'r

plentyn mewn ffordd haws i'w ddeall (McMahon, 2013). Bydd yr ail athro, sydd yn rhedeg yr ymyrraeth, yn elwa o bethau fel bwrdd iaith, geiriadur neu feddalwedd cyfieithu. Bydd yr ail athro yn modelu'r iaith yn gywir, neu bydd yn ymyrraethau gyda gwahanol ddarnau o'r iaith newydd i'r plentyn (Haynes, 2016). Gall yr ymyrraeth hon fod yn unigol neu mewn grŵp. Ar y llaw arall, mae'r ymyrraeth tynnu allan yn gweld y plentyn yn dod allan o'r dosbarth dysgu, ble bydd yr ymyrraeth yn cael eu cynnal gyda chynorthwyydd neu athro sydd wedi cael ei hyfforddi yn yr ymyrraeth (Macur, 2020). Yn ystod yr ymyrraeth yma, bydd y cynorthwyydd neu'r athro yn tynnu grwpiau ffocws allan o'r dosbarth i weithio gyda'n gilydd (Haynes, 2016). Gall hyn fod yn grwpiau gyda'r un lefel allu, neu wedi cymysgu, ond hefyd gallwn weld yr ymyrraeth yma gweithio yn unigol, gydag unigolion yn mynd mas o'r dosbarth yn unigol. Dywedir (Macur, 2022) bod yna hanfodion i'r ymyrraeth lwyddiannus gyda SIY. Mae angen gwybodaeth a sesiynau ymarfer cyn dechrau darparu'r ymyrraeth. Mae angen hefyd gwneud yn siŵr ein bod yn teiwra'r amcanion a'r targedau am yr unigol rydym yn darparu'r ymyrraeth am.

Gwelwn ddadl rhwng athrawon am ba ymyrraeth yw'r gorau rhwng yr ymyrraethau tynnu allan neu wthio i mewn. Gwelwn Haynes (2016) ac Yanina (2019) cytuno gyda'i gilydd bod y fodel gorau yw'r ymyrraeth gwthio i mewn. Dywedir Haynes (2016) bod yn hanfodol i gadw'r plentyn yn y dosbarth, ac i'r ymyrraeth i fod yn rhan o'r dysgu cyffredinol / cyfarwyddyd cynnwys-dosbarth, a bod y plentyn yn aros yn y dosbarth. Siaradir Yanina (2019) am ei phrofiadau fel athrawes o'r ymyrraeth gwthio i mewn, yn galw ar y pwysigrwydd o'r llif y gwersi, ac hefyd i gadw'r plentyn yn yr amgylchedd y dosbarth er mwyn hybu'r dysgu. Fel athrawes yr ymyrraeth gwthio i mewn, dysgodd Yanina (2019) bod angen gwneud yn siŵr ei fod yn cwestiynu'r disgybl a'i dealltwriaeth o'r wers a'r cynnwys o'r wers a'r wybodaeth mae'r athro dosbarth yn addysgu i'r plant. Mewn cyferbyniad i hyn, anghytunir McMahon (2013) gyda Haynes (2016) ac Yanina (2019). Dywedir McMahon (2013) nad yw hi yn gweld y fodel gwthio i mewn fel y fodel gorau am ddisgybl sydd wedi ymuno'r dosbarth yn newydd i'r iaith, oherwydd does dim iaith o gwbl, ac mae angen ffocysu ar adeiladu hyn tu allan o'r dosbarth, yn defnyddio'r ymyrraeth tynnu allan.

Ar y llaw arall, gyda'r plant sydd gyda mwy o iaith, dywedir McMahon (2013) bod y fodel gwthio i mewn yn gweithio. Siaradir am sut mae'r plant newydd eisiau dechrau o'r dechrau, trwy ddysgu geirfa sylfaenol a strwythurau brawddegau, pryd bydd y plant gyda fwy o iaith wedi gwneud hyn yn barod, ac yn gallu ymdopi yn y dosbarth. Cytunir ymchwil (Saunders, et al., 2006) gyda'r syniad bod y plant sydd yn perthyn i'r fodel tynnu allan o'r ymyrraeth yn colli allan o ddigwyddiadau yn y dosbarth, ac hefyd fod yn perthyn i'r dosbarth os mae'r plentyn yn treulio canran uchel o'r dydd tu allan i'r dosbarth, a bydd yr athro'r dosbarth yn deall yn iawn ble mae'r plentyn gyda'i ddatblygiad, neu bydd y plentyn yn cael y siawns i wneud

ffrindiau gyda'i gyd-ddisgyblion. Dywedir ymchwil Saunders et al (2006) hefyd mae rhaid bod yn ofalus faint bydd y plentyn yn colli o'r gwaith y cwricwlwm. Wrth gwrs mae angen y sgiliau cyfathrebu a'r sgiliau iaith, ond hefyd na gall y disgybl colli allan o'r profiadau a'r gwersi gwahanol yn y cwricwlwm, neu bydd y plentyn yn cwmpo'n tu-ôl i'r gofynion y cwricwlwm a'r gofynion y profion cenedlaethol. Yn fy marn i, mae rhaid i ni fel athrawon dosbarth, neu'r athrawon i'r ymyrraeth deall y plentyn, a pob tro yn rhoi'r plentyn yng nghanol yr ymyrraeth. Os bydd angen mwy o amser tu allan o'r dosbarth er mwyn i'r plentyn gallu bwrw'r targedau'r cwricwlwm, wedyn bydd angen cynllunio ac amserlenni'n effeithio er mwyn i'r plentyn ddim colli mas ar wybodaeth y cwricwlwm, ond i'r plentyn i gryfhau'i hiaith, a sgiliau cyfathrebu yn briodol i allu bwrw'r targedau.

Fel yr athro dosbarth, byddaf yn cyfuno'r ddwy fodel ymyrraeth Saesneg fel iaith Ychwanegol, i wneud yn siŵr bydd Aleksander yn treulio amser tu allan i'r dosbarth, ac hefyd yn ar os yn y dosbarth yn dysgu'r cwricwlwm, ac hefyd cynyddu'r sgiliau mae angen. Byddaf yn cynllunio Cynllun Datblygu Unigol am Aleksander, i weithio ar ei iaith, a sgiliau chymdeithasu. Gwelir rhan dau o'r aseiniad am fy nghynllun datblygiad unigol.

Mae'r rhan gyntaf o'r ymyrraeth yn digwydd yn syth pan fydd Aleksander yn dechrau'n iawn yn yr ysgol. Yn ystod y trawsnewidiad o flwyddyn pump i chwech, bydd gan Aleksander targedau i fwrw, i allu siarad yr iaith yn well pan fydd e yn dod yn ôl i'r ysgol ym mis Medi. Felly, gyda phedwar wythnos ar ôl, bydd rhan gyntaf o'r ymyrraeth yn cymryd rhan nawr, wedyn bydd rhieni Aleksander, a'i deulu gynnal yn darparu'r ail ran o'r ymyrraeth o gartref ar draws yr Haf. Bydd yr ysgol yn danfon cynllun newydd cartref, i'r rhieni cael rhan mewn addysg Aleksander, a rhan mewn datblygiad eu plentyn. Esbonia Brooks (2019) ar bwysigrwydd presenoldeb y rhieni yn ystod bywyd addysgiadol ei phlentyn. Gwelir fwy o lwyddiant yn blant ble mae'r rhieni yn chwarae rôl yn addysg y plentyn. *"Research shows that parental involvement in education leads to greater student success and increased confidence"* (Brooks, 2019). Yn ystod teithiau Aleksander, mae'n debyg bydd Aleksander wedi colli llawer o'i hyder, a felly, yn ystod yr amser caled o'i fywyd, bydd Aleksander angen y fwyaf o gefnogaeth a galle cael. Mae'n bwysig i'r ysgol, i Aleksander a'i ddatblygiad i'r rheini cefnogi'r ymyrraeth, a chwarae eu rôl yn addysgu Aleksander yr iaith Saesneg.

Fel dywedais uchod, bydd ymyrraeth Aleksander yn digwydd ar draws trosglwyddiad rhwng blwyddyn pump a chwech, sydd yn digwydd yn ystod yr wythnosau cau'r flwyddyn, a gwyliau'r Haf. Gwelwn y cam cyntaf o'r ymyrraeth wedi torri lawr i bedair wythnos, ble mae'r gofynion yr wythnos yn cynyddu, a mae'r datblygiad yn dangos.

Gofynion wythnos un yw i Aleksander i ddechrau ymarfer yr iaith Saesneg, trwy weld y perthynas rhwng llythrennau, geiriau a lluniau. Bydd Aleksander hefyd yn gweithio ar sgiliau

cyfieithu geiriau syml. Bydd cynorthwyydd dosbarth yn defnyddio ysbrydoliaeth o'r system PECS i dangos Aleksander y gair yn Wcreineg, llun o'r gair a'r gair Saesneg. Gobaith hyn bydd i Aleksander dechrau ymarfer dweud y geiriau yn Saesneg. Yn ystod yr wythnos yma hefyd, bydd Aleksander yn dysgu'r wyddor Saesneg. Wrth ymarfer siarad Saesneg, a dweud y geiriau syml, bydd y perthnasoedd ffoneg o dan y gair i helpu Aleksander gyda'r synau o'r llythrennau a'r sŵn y gair. Anghytunir Weale (2022) a'r syniad o'r defnydd partneriaeth ffoneg yn datblygu'r darllen a sgiliau cyfathrebu'r plentyn, gan ddweud: *"phonics training only helps children to do well in phonics tests - they learn how to pronounce words presented to them in a list rather than understand what they read"*. Yn fy marn i, bydd ymarfer ffoneg, a'r defnydd o hyn er mwyn dechrau datblygiad Aleksander yn gweithio, oherwydd mae rhaid i Aleksander dechrau o'r ddechrau, ac wrth ddarllen y darn Weale (2022) yn fwy, siaradir amdano'r profion blwyddyn un, ble mae'r canrannau o blant sydd yn gallu darllen yn cynyddu.

Gofynion yr wythnos dau yw i Aleksander dechrau ymarfer sillafu ac ymarfer ysgrifennu yn y Saesneg. Cychwyn yr wythnos, bydd Aleksander dim ond yn copïo'r Wyddor allan, wrth ddefnyddio cardiau llythrennau, fel system PECS, yn dangos llythyren a gwrthrych sydd yn dechrau gyda'r llythyren er enghraifft 'a am afal'. Wedyn, bydd Aleksander yn dechrau defnyddio'r llais y cynorthwyydd, a'r system PECS' i sillafu ac ysgrifennu geiriau syml. Bydd yr athro yma yn modelu'r iaith, dweud y gair a sillafu. Yn galw'r strwythur modelu iaith yn *"super-strategy"* cytunwyd Gavin (2019) ar ddefnydd modelu iaith ar gyfer datblygiad Aleksander i siarad yr iaith. Dywedir bod modelu iaith yn ffordd arbennig i ddatblygu sgiliau cyfathrebu'r plentyn, yn enwedig yn ystod datblygiad cynnar, neu mewn sefyllfa Aleksander, ymyrraeth i ddysgu'r iaith. Rydw i'n gobeithio bydd y model, modelu iaith yn sbarduno datblygiad gloi i Aleksander i gyfathrebu a'i ffrindiau.

Gofynion y drydedd wythnos yw ddechrau ymarfer strwythur brawddegau. Yn ystod yr wythnos, bydd Aleksander a'r cynorthwyydd dosbarth yn defnyddio'r system PECS fel y mae i fod i gael ei ddefnyddio. Eto, wrth ddefnyddio modelu iaith, bydd cynorthwyydd dosbarth yn modelu'r frawddeg, wedyn bydd Aleksander yn ei hysgrifennu, yn olaf bydd Aleksander yn rhoi cynnig yn dweud y frawddeg. Mae'r system PECS yn gwneud gwaith arbennig i hybu strwythur brawddeg i blant sydd yn methu siarad (Shaw-Cosman, 2008). Mae'r system yn arbennig i'r plentyn gofyn am gymorth, neu ofyn am fwyd, tegan, rhywbeth i yfed, tŷ bach ac yn y blaen. Defnyddir model yma i dangos i Aleksander y brawddegau sydd ei hangen i allu dweud cyn iddo ddechrau trafodaethau hawdd yn wythnos pedwar i asesu datblygiad Aleksander lan hyd at ddiwedd rhan un o'r ymyrraeth.


Mae wythnos pedwar, sgysiau bach gyda ffrindiau, yn holl bwysig i Aleksander, a'i hathro deall os mae Aleksander wedi datblygu sgiliau iaith. Bydd gan Aleksander y tri diwrnod cyntaf yr wythnos i ymarfer gyda'r cynorthwydd dysgu, i drafod y tymhorau, dyddiau, tywydd a'r dyddiad mewn sgwrs a'i ffrindiau. Trafodir gwefan TeachingEnglish (2008) ar y syniad bod dysgu iaith newydd yn well pan rydych chi mewn grŵp. Dyweda TeachingEnglish (2008) bod dysgu Saesneg mewn grŵp, yn cynyddu cymhelliad y plentyn. Os mae Aleksander ddim yn ymdopi yn dda gyda rhywbeth, gall ei ffrind ei helpu, trwy roi syniad newydd, neu arwain y dysgu. Ar y llaw arall, dyweda Wallace (1992) bod plant sydd ddim yn hoffi gweithio mewn grŵp, gwneud yn well pan ydynt yn gweithio fel grŵp. Oherwydd y rhwystr o Saesneg fel iaith Ychwanegol, nad ydyn ni yn gwybod os bydd Aleksander yn hoff iawn i weithio mewn grŵp, enwedig pan maent yn gorfod dysgu iaith, bydd y grŵp yn barod yn gallu siarad yn rhugl, felly bydd rhaid cofio i fonitro a gweld os bydd yn iawn gyda hyn.

Yn ystod y pedwar wythnos, gwelir Aleksander gwahanol sgiliau iaith, a bydd yn newid bywyd am fyth. Mae'r sgil i allu siarad dwy iaith yn sgil arbennig, gyda gwaith Singh a Quam (2016) yn dweud pob plant sydd yn gallu siarad dwy iaith yn dangos cyfleuster trawiadol gyda newid rhwng ieithoedd mewn trafodaethau neu yn eu dysgu. Gall hyn agor i Aleksander i allu cael sgwrs a'i fam o Wcráin, ac wedyn yn sydyn cael trafodaeth gyda'i deulu gynnal. Yn y dyfodol, os bydd Aleksander a'i deulu dewis i ar os yn y wlad, bydd gan Aleksander fantais yn erbyn rhai ymgeiswyr am swyddi, oherwydd gall siarad dwy iaith (targetjobs, dim dyddiad).

Yn fy marn i, dewisais yr ymyrraeth gywir i daclo'r rhwystr Aleksander o Saesneg fel iaith Ychwanegol, oherwydd rwyf wedi cymysgu'r ddwy fodel o 'tynnu allan' a 'gwrthio i mewn' i weithio i'r gorau am Aleksander a'i ddatblygiad. Peryg fwyaf 'tynnu allan' yw Aleksander yn colli allan gormod o'r cwricwlwm (Whiting, 2017, tud 26-27). Felly i osgoi hyn, cytunais, fel yr athro dosbarth, a'r cynorthwydd dosbarth dim ond i dynnu Aleksander allan pan mae'r dosbarth yn darllen nofel, neu wneud gwaith ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae'r cynorthwydd dosbarth yn rhydd i eistedd ar bwys Aleksander yn ystod y gwersi eraill, gyda meddalwedd cyfieithu i feddalu'r rhwystr a chynyddu ei ddysgu.

Rhan 2

Helo, fy enw i yn
Aleksander, rwy'n naw
mlwydd oed, ac rwy'n
dod o Wcráin.



Beth sy'n bwysig i mi?	Beth yw fy heriau?	Sut i fy nghefnogi a fy helpu i ddatblygu?
Fy hoff liw yw glas, yn byd delfrydol, byddai popeth yn las! Mathemateg yw fy hoff wers yn yr ysgol, adio a lluosu yw'r gorau yn fy marn i! Rwyf wrth fy modd yn helpu fy nghyd-ddisgyblion gyda'u camgymeriadau mathemateg a bob amser yn barod i helpu syr gyda'i fathemateg ar y bwrdd gwyn mawr! Mae gen i gariad mawr at fy ngwlad enedigol hefyd, a thra dwi'n ei cholli, dwi wrth fy modd yn dweud wrth bawb pa mor wych yw hi!	Yn yr ysgol, yn Wcráin, dysgais bach o Saesneg, a felly fy brif darged yw i gallu siarad Saesneg yn fwy. Oherwydd y trawma, a'r lefel isel o'r iaith, rwyf yn gweld hi'n anodd i wneud ffrindiau yn yr ysgol, ond hefyd tu allan i'r ysgol. Rwyf hefyd eisiau chwarae mwy o bêl-droed, rwyf yn colli chwarae y gêm, felly byddaf yn hoffi ymuno ar tîm pêl-droed yr ysgol, ond i wneud hyn, bydd rhaid i fi gwella ac ymarfer fy Saesneg.	Er mwyn i mi dysgu'r iaith newydd, cytuna fi a yr athro, bydd yn rhaid i mi gael cymorth ychwanegol i cyfathrebu gyda y cyd-ddisgyblion yn y dosbarth, fy athrawon a staff yr ysgol trwy defnydd o luniau. Hefyd, byddaf yn edrych ymlaen i cael gwersi unigol Saesneg gyda y cynorthwyydd dosbarth dros yr hanner tymor cyntaf ym mlwyddyn chwech, i cryfhau ac ymarfer fy sgiliau i gallu ymuno mewn i trafodaethau'r dosbarth, sgwrsiai ar y buarth a dewis beth i fwyta amser cinio ac yn y blaen.
Amdanaf i:		
Bachgen hapus, chwareus o Wcráin ydw i. Rydw i'n ystyried fy hun yn dal, ond nid fi yw'r talaf yn fy nosbarth newydd yng Nghymru. Rydw i yn mwynhau gwylio pêl-droed gyda fy		

nhad a'm brodyr, ond yn anffodus nid oedd fy nhad yn gallu ymuno â ni ar ein taith i Gymru. Rwyf hefyd yn mwynhau chwarae tag ar y buarth gyda fy ffrindiau yn yr ysgol. Gobeithia byddaf yn gallu dychwelyd i'm gwlad gartrefol un diwrnod, ar ôl dysgu iaith newydd a set newydd o sgiliau.

Er mwyn datblygu Aleksander gyda'i iaith a sgiliau cyfathrebu, byddant dechrau ymyrraeth iaith trwy paratoi cyfres o wersi unigol, a mewn grwpiau ffocws er mwyn datblygu ei ddefnydd o Saesneg. Bydd yna tîm o gwmpas y plentyn yn yr ymyrraeth, bydd athro'r dosbarth yn gwneud rhai sesiynau, bydd y cynorthwyydd dosbarth yn eistedd gyda Aleksander a bydd yr athro cynorthwyydd yn tynnu Aleksander allan o'r dosbarth am sesiynau. Yn olaf, bydd yna siawns i'r rhieni neu'r teulu cynnal gwneud gwaith gyda Aleksander yn y cartref er mwyn hybu'r iaith tu fas o'r ysgol.

Cynllun mis yw'r rhan cyntaf, ble byddant yn ffocysu ar y sgiliau llafar a ddarllen o'i ddatblygiad. Bydd y cynllun cyntaf yn ffocysu ar y fodel tynnu mas o'r ymyrraethau Saesneg fel iaith Ychwanegol. Ar-ôl y profion, gwelwn fod Aleksander ar Cam Cynnydd sero am ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, sydd yn meddwl nad oes ganddo sgiliau trafodaeth yn yr iaith Saesneg, iaith yr ysgol.

Erbyn diwedd y rhan cyntaf o yr ymyrraeth, gobeithiwn bydd Aleksander yn gweithio tuag at y cam cynnydd un, sydd yn edrych ar y ffordd *"Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd."* (Llywodraeth Cymru, 2020). Gofynion y cam cynnydd yma yw:

"Rwy'n dechrau deall bod gwahanol ieithoedd yn fy amgylchedd. Rwy'n dechrau siarad â'm cyfoedion yn iaith y lleoliad/ysgol."

Bydden ni'n hoffi gweld Aleksander yn dechrau siarad a'i ffrindiau yn y dosbarth, ar y fuarth ac yn ystod amser cinio yn y ffreutur. Hefyd, bydd yn braf i Aleksander i gallu teimlo ei fod yn berthyn yn yr ysgol, y dosbarth ar cymuned ehangach.

Dyma y Cynllun Datblygiad Unigol (CDU) cytunodd ar gan yr athro dosbarth, a rhieni Aleksander ac Aleksander.

Cynllun Datblygiad Unigol (CDU) : Aleksander	
Nod: Defnyddir ymyrraeth 'tynnu allan' am y cyfnod cyntaf CDU Aleksander. Yn ystod yr ymyrraeth, bydd yr athro cynorthwyydd yn tynnu Aleksander allan am awr y dydd, i gweithio ar ei iaith, sgiliau cyfathrebu a sillafu. Bydd yr athro yma wedi derbyn adnoddau ddwyieithog, yn yr iaith Saesneg ac iaith Wcreineg.	
Wythnos Un	Dechrau ymarfer yr iaith Saesneg trwy gweld y perthynas rhwng llythrennau, geiriau a lluniau ac hefyd cyfieithu geiriau syml.

Beth?	Pwy?	Ble?	Pam?	Pryd?
Wrth defnyddio ysbrydoliaeth o'r system PECS, bydd y plentyn yn ymarfer cyfieithu geiriau syml o Wcreineg i'r Saesneg er enghraifft cath, ci, bws, drws, wâl ac yn y blaen. Hefyd yn ystod yr awr, bydd yna cyfle i'r cynorthwydd iaith i ymarfer trefn y wyddor gyda Aleksander. Yn olaf, dyle Aleksander ymarfer dweud y gweiriau ar lafar trwy defnyddio perthnasoedd ffoneg o'r geiriau yn gweladwy.	Bydd y cynorthwydd dosbarth yn cymryd y sesiynau yma.	Bydd y sesiynau yma yn digwydd tu fas y dosbarth, yn ystafell tawel, neu tu allan os mae'r tywydd yn braf.	Wrth cwblhau'r tasgau yma, bydd Aleksander yn dechrau ymarfer geiriau syml, ac hefyd ymarfer sgiliau cyfieithu. Bydd Aleksander yn gweld y gair yn Wcreineg, wedyn llun o'r gair, ac wedyn y gair yn Saesneg, gyda'r berthnasoedd ffoneg o dan. Bydd Aleksander hefyd yn ymarfer dweud yr wyddor, trwy gwrando a chopio'r athro.	Yr awr cyntaf pob dydd, pan bydd y dosbarth yn ei gwers leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.
Wythnos Dau	Ymarfer sillafu ac ysgrifennu trwy defnyddio llyfrau bach llawysgrifen.			
Beth?	Pwy?	Ble?	Pam?	Pryd?
Trwy parhau gyda'r byrddau PECS, dyle	Eto, bydd y cynorthwydd dosbarth yn	Bydd pob sesiwn yn digwydd tu	Trwy ymarfer y geiriau eto, pan ysgrifennu, bydd	Dyle pob sesiwn digwydd yn

Aleksander dechrau copïo'r geiriau sydd wedi'u hysgrifennu ar y cardiau ar ddarn o bapur. Hefyd, bydd Aleksander yn parhau i ymarfer yr wyddor, ond nawr bydd yn dechrau gwneud hyn trwy ddefnyddio llyfr llawysgrifen i ffurfio'r llythrennau, gan ymarfer eu hysgrifennu. Efallai y byddai'n ddefnyddiol iddo gymharu'r wyddor Saesneg a'r Wyddor Wcreineg ar lafar.	cymryd y sesiynau. Dyle'r athro rhoi tasgau bach i Aleksander gwneud gyda'i teulu cartref.	fewn yr ysgol, ond yn ystafell gwahanol i'r dosbarth.	y gair yn aros yn ei ben. Bydd Aleksander yn dweud y gair pan yn ysgrifennu, fel enghraifft, bydd yr athro yn fodelu'r gair trwy dweud ' bws , b w s , bws'. Felly bydd Aleksander yn clywed y gair, clywed y sillafu, ac wedyn ysgrifennu'r gair. Bydd Aleksander hefyd yn defnyddio cardiau llythyren, sydd yn dangos y llythyren, a hefyd enghraifft o gair sydd yn dechrau gyda'r llythyren yna.	ystod gwers leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r dosbarth. Bydd yna sesiwn hefyd yn syth ar-ôl cinio, pan mae'r dosbarth yn darllen nofel. Cyfanswm y ddydd yw ddwy awr.
Wythnos Tri	Dechrau ymarfer strwythur brawddegau.			
Beth?	Pwy?	Ble?	Pam?	Pryd?
I ymarfer y sgil yma, bydd Aleksander yn dechrau trwy ail-dddefnyddio'r	Bydd Aleksander yn mynd mas o'r dosbarth gyda'r	Bydd y sesiynau yn cymryd lle yn dosbarth bach tawel, ble bydd	Er mwyn gorffen y cam cyntaf o'i ddatblygiad iaith, mae angen i Aleksander	Bydd y sesiynau yma yn cymryd tua awr, yn ystod gwers

system PECS i rhoi lluniau ati gilydd i greu brawddeg. Bydd yna llun o'r gair uwch ben y gair, a bydd Aleksander yn rhoi'r cardiau yn y trefn cywir i greu brawddeg. Ymhen diwedd yr wythnos, bydd Aleksander yn ymarfer y brawddegau ar lafar, gyda'r cynorthwydd dosbarth yn fodelu'r frawddeg.	cynorthwydd dosbarth.	y cynorthwydd dosbarth ac Aleksander yn gweithio.	gallu strwythuri brawddegau, ac ymarfer dweud rhain ar lafar trwy cyfathrebu.	leithiedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.
Wythnos Pedwar	Sgyrsiau bach gyda ffrindiau.			
Beth?	Pwy?	Ble?	Pam?	Pryd?
Bydd Aleksander yn gwneud tasgau grŵp, yn cynyddu sgiliau siarad a thrafodaeth. Bydd Aleksander a'i grŵp y tywydd, tymhorau, dydd a'r dyddiad. Bydd y grŵp	Yn y tri dydd cyntaf o'r wythnos, bydd Aleksander yn mynd gyda'r cynorthwydd dosbarth ar ei ben ei hun. Wedyn, bydd yna grŵp yn mynd tu fas y dosbarth gyda'r	Bydd y cynorthwydd dosbarth yn gwneud y sesiynau hyn yn y cwtch darllen yn yr ardal dawel yr ysgol.	Bydd hyn yn datblygu sgiliau cymdeithasol Aleksander. Bydd hefyd yn datblygu'r sgiliau siarad a thrafod, yn galluogi Aleksander i rhoi brawddegau ati gilydd i ymateb i	Dyle'r sesiynau hyn digwydd yn ystod y gwers leithoedd, Llenyddiaeth a Chyfathrebu'r dosbarth, ond pan bydd eraill yn dod allan i greu'r grŵp ffocws, bydd y sesiwn

hefyd yn siarad amdano'r ysgol, eu hoff gwersi, ac hoff amser.	cynorthwyydd dosbarth.		cwestiynau a thrafod y dydd.	digwydd yn ystod amser darllen y dosbarth.
Diwedd	Erbyn diwedd y pedair wythnos, dyle Aleksander gallu dweud yr wyddor Saesneg a Wcreineg, a dyle Aleksander gallu adnabod geirifa syml Saesneg fel drws, bws, car, cath ac yn y blaen. Hefyd bydd Aleksander yn gallu ysgrifennu'r wyddor, ac wedi dechrau ysgrifennu geiriau. Yn olaf dyle Aleksander siarad brawddeg, ymhellach ysgrifennu'r dyddiad, y mis, a'i enw yn Saesneg. Dyle Aleksander gallu trafod y tywydd, y dyddiad, cyflwyno ei hun, a trafod gwersi, pryd o fwyd a theimladau. Gobeithio, erbyn hyn, gall Aleksander ymuno mewn i trafodaethau syml y dosbarth, gofyn am ginio'r ysgol, ymarfer patrymau iaith fel y dyddiad, a'r tymhorau, yn olaf siarad a'i ffrindiau. Os bydd Aleksander yn llwyddiannus i wneud hyn, bwriad nesaf yw iddo symud i ymyrraeth newydd, i parhau ei ddatblygiad.			

5295 o geiriau.

Llyfryddiaeth:

Rhan 1-

Avagyan, A. (2019) 'Picture Exchange Communication System (PECS) as a Connected Speech Development Tool for Children from Immigrant Families in Armenia' *Journal of the International Association of Special Education*, 19(1), tud. 37-44.

BBC News. (2022). *The Ukrainian refugee schoolgirl learning fast in the UK*. Ar gael yn: <https://www.bbc.co.uk/news/av/education-61396730>. (Cyrchwyd: 5 Hydref 2022).

BBC News. (2022). *Ukraine refugees: Wales asks for more to open their homes*. Ar gael yn: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-63034139>. (Cyrchwyd: 05/10/2022).

Bolloten, B., a Spafford, T. (2015). *Refugee and asylum seeker children in UK schools*. Ar gael yn: <https://www.naldic.org.uk/eal-teaching-and-learning/outline-guidance/ealrefugee/>. (Cyrchwyd: 20 Hydref 2022).

Bondy, A.S. a Frost, L.A. (1994). 'The Picture Exchange Communication System'. *Focus on Autistic Behavior*, 9(3), tud.1–19.

Bourne, J. (1989). *Moving Into The Mainstream: LEA Provision for Bilingual Pupils*. Windsor: NFER-Nelson.

Brooks, A. (2019). *Experts Discuss the Importance of Positive Parental Involvement in Education*. [Blog]. Ar gael yn: <https://www.rasmussen.edu/degrees/education/blog/parental-involvement-in-education/>. (Cyrchwyd: 26 Hydref 2022).

Comisiynydd Plant Cymru. (2022). *Adnoddau i gefnogi plant sydd wedi ffoi Wcráin*. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau-i-gefnogi-plant-sydd-wedi-ffoi-wcrain/>. (Cyrchwyd: 20 Hydref 2022).

Comisiynydd Plant Cymru. (2022). *Deall Eich Hawliau*. Ar gael yn: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/04/CCfW-A2-Rights-Poster-CYMRAEG-AW-Rocio.pdf>. (Cyrchwyd: 20 Hydref 2022).

Costley, T. (2014). 'English as an additional language and the teaching and learning of English and England.'. *Language and Education*, 28(1), tud. 276-292

Charlop-Christy, M., Caroenter, M., Le, L., LeBlanc, L., a Kellet, K. (2002). 'Using the Picture Exchange Communication System (PECS) with children with autism: assessment of pecs acquisition, speech, social-communicative behavior, and problem behavior' *Journal of Applied Behavior Analysis*. 35(3). Tud. 213-231.

Demie, F. (2013). 'English as an additional language pupils: how long does it take to acquire English fluency?' *Language and Education*, 27(1), tud.59–69

Department for Education (2018) *Schools, pupils and their characteristics: January 2018*

[Table 5a]. [Tabl]. Ar gael yn:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/719226/Schools Pupils and their Characteristics 2018 Main Text.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/719226/Schools_Pupils_and_their_Characteristics_2018_Main_Text.pdf) (Cyrchwyd:

11 Hydref 2022).

Department for Education (2020) *English proficiency of pupils with English as an additional language*. Ar gael yn:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/868209/English proficiency of EAL pupils.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/868209/English_proficiency_of_EAL_pupils.pdf) (Cyrchwyd: 11 Hydref 2022).

Derrick, J. (1977). *Language Needs of Minority Group Children*. Slough: NFER.

Flippin, M., Reszka, S. a Watson, L.R. (2010). 'Effectiveness of the picture exchange communication system (PECS) on communication and speech for children with autism spectrum disorders: A meta-analysis', *American Journal of Speech-Language Pathology*, 19(2), tud. 178-195.

Gavin, L. (2019). *Modeling: A Super-Strategy for Language Growth*. [Blog] Ar gael yn:

<https://www.lgspeechtherapy.com/blog/2019/3/18/modeling-a-super-strategy-for-language-growth>. (Cyrchwyd: 27 Hydref 2022)

Haynes, J. (2016). *Pull-Out vs Push-In ESL Programs in ELementary Schools*. [Blog] Ar gael yn: <http://blog.tesol.org/pull-out-vs-push-in-esl-programs-in-elementary-schools/>. (Cyrchwyd: 22 Hydref 2022).

Immigration Act 1971, c. 77. Ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1971/77/contents>. (Cyrchwyd: 13 Hydref 2022).

Leung, C. a Franson, C. (2001) *England: ESL in the Early Days*. Harlow: Longman

Levine, J. (1996). *Voices of Newcomers*. Stoke-on-Trent: Trentham Books.

Llywodraeth Cymru. (2022). *Cartrefi i Wcráin: addysg*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/cartrefi-i-wcrain-addysg#section-100792>. (Cyrchwyd: 5 Hydref 2022).

Macur, G. (2020). *EAL interventions: How and why you should use them*. Ar gael yn:

<https://www.tes.com/magazine/archive/eal-interventions-how-and-why-you-should-use-them>.

(Cyrchwyd: 20 Hydref 2022).

McMahon, C. (2013). *Push In Versus Pull Out Strategies for English Language Learners (ELL)*. [Blog]. Ar gael yn: <https://theeducatorsroom.com/push-in-versus-pull-out-in-e-s-l/>. (Cyrchwyd: 22 Hydref 2022).

Norfolk County Council (2020) *EAL for Early Years*. Ar gael yn: <https://www.schools.norfolk.gov.uk/early-learning-and-childcare/early-years-inclusion/eal-for-early-years/what-is-eal> (Cyrchwyd: 10 Hydref 2022).

O’Kane, M. (2015). ‘*Multiple Transitions*’. A paper prepared for the symposium, Early Education Alignment: Reflecting on Context, Curriculum and Pedagogy, tud. 2.

Rasheed, M. (2017). *English as an Additional Language (EAL) Service in Aberdeen: a case study*. Ar gael yn: [https://www.thefreelibrary.com/English+as+an+Additional+Language+\(EAL\)+Service+in+Aberdeen%3a+a+case...-a0521048288](https://www.thefreelibrary.com/English+as+an+Additional+Language+(EAL)+Service+in+Aberdeen%3a+a+case...-a0521048288). (Cyrchwyd: 13 Hydref 2022).

Ryder, N. (2013). *Yr ABC i Anghenion Ychwanegol*. Caerfyrddin: Canolfan Peniarth.

Saunders, W., Foorman, B., a Carlson, C. (2006) ‘*Is a Separate Block of Time for Oral English Language Development in Programs for English Learners Needed?*’ The Elementary School Journal 107(2), tud. 181-198. Chicargo: The University of Chigago Press.

Shaw-Cosman, M. (2008) *Critical review: Language outcomes for children with autism: A comparison between PECS and sign language*.

Siegel, B. (2000). ‘Behavioral and educational treatments for autism spectrum disorders’ The Advocate, 33. Tud. 22-25.

Singh, L., a Quam, C. (2016) ‘*Can bilingual children turn one language off? Evidence from perceptual switching*’ Journal if Experimental Child Psychology, 147(1), tud. 111-125

Strand, S. (2014) ‘*Ethnicity, gender, social class and achievement gaps at age 16: intersectionality and ‘getting it’ for the white working class*’, Research Papers in Education, 29(2), 131-171.

Swann, M. (1985). ‘*The Report of the Committee of Inquiry into the Education of Children from Ethnic Minority Groups*’. Education for All. Llundain: Llyfrfa ei Mawrhydi.

TargetJobs. (dim dyddiad). *Career benefits of being bilingual*. [Gwefan]. Ar gael yn: <https://targetjobs.co.uk/careers-advice/finding-a-job/career-benefits-being-bilingual>. (Cyrchwyd: 28 Hydref 2022).

TeachingEnglish. (2008). *Learning English in a group is much more effective than on a one-to-one basis*. [Gwefan]. Ar gael yn: <https://www.teachingenglish.org.uk/blogs/neli->

[kukhaleishvili/learning-english-group-much-more-effective-one-one-basis](https://kukhaleishvili.com/learning-english-group-much-more-effective-one-one-basis/). (Cyrchwyd: 27 Hydref 2022).

Ukrainian Ministry of Education and Science. (dim dyddiad) *All-Ukrainian school online*. Ar gael yn: <https://lms.e-school.net.ua/>. (Cyrchwyd: 22 Hydref 2022).

UNICEF. (2022). *One week into conflict in Ukraine, half a million children become refugees*. Ar gael yn: <https://www.unicef.org/press-releases/one-week-conflict-ukraine-half-million-children-become-refugees>. (Cyrchwyd: 5 Hydref 2022).

Vogler, P., Crivello, G., a Woodhead, M. (2008). 'Early childhood transitions research: A review of concepts, theory, and practice'. Bernard Van Leer Foundation Working Paper 48, tud. 2.

Wallace, J. (1992). *Do Students Who Prefer To Learn Alone Achieve Better Than Students Who Prefer To To Learn With Peers?*

Weale, S. (2022). 'Focus on phonics to teach reading is 'failing children', says landmark study', The Guardian, 19 Ionawr. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/education/2022/jan/19/focus-on-phonics-to-teach-reading-is-failing-children-says-landmark-study>. (Cyrchwyd: 27 Hydref 2022).

Whiting, J. (2017) 'Caught Between the Push and the Pull: ELL Teachers' Perceptions of Mainstreaming and ESOL Classroom Teaching', NABE Journal of Research and Practice, 8(1), tud. 9-27

Yanina. (2019). *5 Things I Have Learnt as an ESL Push-in Model Teacher That I'm Taking into the NExt School Year*. [Blog]. Ar gael yn: <https://un-seriousteacher.com/esl-push-in-model-teacher/>. (Cyrchwyd: 22 Hydref 2022).

Yarnall, P. (2000). 'Current interventions in autism – a brief analysis' The Advocate, 33. Tud. 25-27.

Zahawi, N. (2022) Llythyr at Ysgolion y Deyrnas Unedig, 4 Mai.

Rhan 2-

Clipartcraft. (2022). *kid-clipart-standing-9*. Ar gael yn: <https://clipartcraft.com/images/kid-clipart-standing-9.png> (Cyrchwyd: 5 Hydref 2022).

Llywodraeth Cymru. (2020). *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf>. (Cyrchwyd: 5 Hydref 2022).